Sut i ddod o hyd i'r gwyfyn

Er gwaethaf ei faint fe all y gwyfyn hwn fod yn anodd ei weld. I weld yr oedolion chwiliwch am le â digonedd o ffynonellau neithdar ac astudiwch unrhyw bryfyn tebyg i wenynen sy'n hofran o flaen blodyn. Gall fod yn anodd i ddod o hyd i'r lindys hefyd. Y ffordd orau yw chwilio am y difrod ymborthi a'r baw lindys (frass) fel a welir yn y lluniau. Mae'r lindys ifanc yn creu llu o dyllau bach ar draws dail Bara'r Cythraul wrth ymborthi. Mae'r rhai mwy eu maint yn bwyta siapiau hanner lleuad o ymyl y dail, a gellir dilyn strimyn o ddifrod wrth iddynt symud o un planhigyn i'r llall. Ond mae gwlithod, malwod a lindys y llifbryf yn gadael difrod tebyg, ac mae angen chwilio'n ofalus felly am lindys y gwyfyn ar wyneb isaf dail Bara'r Cythraul i gadarnhau presenoldeb y gwyfyn. Dylid chwilio am yr wyau hefyd ar goesynnau a wyneb isaf y dail.

c1212 June 2005

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Achub glöynnod a gwyfynod gwyllt a'u cynefinoedd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paratowyd gan Gwarchod Glöynnod Byw gyda chyllid oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru Cronfa Her Rhywogaethau.

Gwarchod Glöynnod Byw
10 Rhes Calvert Abertawe SA1 6AR
Ffôn: 0870 7706153 E-bost: wales@butterfly-conservation.org

www.butterfly-conservation.org

Photographs by David Green, Barry Stewart, Dan Hoare and Paul Pugh

Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn elusen gofrestredig ac yn gwmni di-elw, wedi'i gyfyngu gan warant.
Swyddfa Gofrestredig: Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP
Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2206468 - Elusen Gofrestredig Rhif 254937

Designed and produced by **cellcreative** 01942 681648

Gwarchod Glöynnod Byw

Y Gwalchwyfyn Gwenynog Ymyl Gul

Hemaris tityus



Mae'r Gwalchwyfyn Gwenynog Ymyl Gul yn hedfan yn ystod y dydd. Diolch i'r clytiau tryloyw ar ei adenydd a'i gorff blewog, mae'n debyg ei olwg i gacynen bwm (cachgi bwm). Ond mae'r gwyfyn yn fwy sionc, mae'n hedfan yn sythach na'r gacynen ac yn hofran wrth gasglu neithdar yn lle glanio ar y blodyn fel cacynen. Daw'r enw 'Hemaris' o 'hemera', h.y. 'y dydd', gan mai yn ystod y dydd y mae'n hedfan. Bu Tityus yn gawr ym mytholeg y Rhufeinwyr, cyfeiriad efallai at ei faint.

Fe'i ceir ar borfeydd y rhos a rhostiroedd isel lle y mae unig planhigyn bwyd y lindys, Bara'r Cythraul, yn tyfu mewn clytiau toreithiog.

Yng ngorllewin Prydain yn unig y ceir y Gwalchwyfyn Gwenynog YG heddiw. Bu'n gyffredin ar draws Cymru gynt, ond mae'r cofnodion diweddar yn dangos nad yw i'w weld bellach ond mewn rhannau o Siroedd Caernarfon, Môn, Aberteifi a Morgannwg.

Mae Llywodraeth y DU wedi ei restru'n Rhywogaeth Flaenoriaethol dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, sy'n golygu bod angen dybryd gweithredu i'w achub.

1st instar caterpillar feeding damage

3rd instar caterpillar and feeding damage

final instar caterpillars

Devil's-bit Scabious

Cylch bywyd

Mae'r fenyw yn dewis Bara'r Cythraul sy'n tyfu mewn lle agored i ddodwy'r wyau, lle bo'r llystyfiant 4 -12cm (2-5 mfedd) o daldra. Dodwyir yr wyau gwyrdd sgleiniog fesul un, ac maent yn deor ar ôl 10 niwrnod. Yn debyg i bob gwalchwyfyn bron, mae gan y lindys gwyrdd gynffon debyg i gorn, ac mae blotiau brown porffor yn ymddangos wrth iddynt dyfu. Mae'r lindys yn datblygu rhwng Mehefin ac Awst. Ar ôl y cyfnod ymborthi cymharol fyr hwn maent yn chwilera ac yn gaeafu mewn sidangod fregus ar neu o dan wyneb y pridd. Mae'r oedolion yn hedfan yn rymus, a gellir eu gweld o ganol Mai tan ganol Mehefin. Gallant deithio ymhell yn gyflym, gan hofran o bryd i'w gilydd wrth flodyn i ymborthi. Maent yn cymryd neithdar o amryw flodau, ond y ffefrynnau yw Blodau'r Llau, y Corn Glas a Phys Ceirw mewn lleoedd heulog clyd.



Distribution map of the Narrow-borderd Bee Hawk-moth



Rheoli'r cynefin

Erys llawer i'w ddysgu am ofynion manwl y Gwalchwyfyn Gwenynog YG o ran cynefin. Y prif nod yw cynnal glaslawr amrywiol 8-25cm (3-10mfedd) o daldra, ond â chlytiau da o Fara'r Cythraul mewn glaslawr byrrach tua 4 -12cm (2-5 mfedd) ar gyfer dodwy. Rhaid sicrhau ffynonellau neithdar da yn llygad yr haul hefyd i'r oedolion.

- Mae pori ysgafn gan wartheg neu ferlod yn y gwanwyn a'r haf yn ddelfrydol ar safleoedd gwlypach, er y gall pori hydref/gaeaf neu drwy'r flwyddyn fod yn addas.
- Nid yw pori gan ddefaid yn addas, gan eu bod yn tueddu i ffafrio'r planhigyn bwyd ac o ganlyniad yn amharu ar ei bresenoldeb neu'n ei ddifa hyd yn oed.
- Gall y bydd angen torri prysgwydd. Mae'n well torri ychydig bob blwyddyn, o Hydref tan Chwefror. Peidiwch â'u clirio i gyd gan fod pryfed eraill ac adar yn eu defnyddio i lochesu a bridio.

Gwyddys bod y cynefinoedd llaith lle ceir y Gwalchwyfyn Gwenynog YG yn hybu sawl pryfyn prin arall megis y Llinell Ddwbl a Brith y Gors, a dylai arferion rheoli gymryd y rhywogaethau hyn i ystyriaeth hefyd.